

## PULESTON, JOHN (c. 1583 - 1659), barnwr

**Enw:** John Puleston  
**Dyddiad geni:** c. 1583  
**Dyddiad marw:** 1659  
**Priod:** Elizabeth Puleston (née Woolrych)  
**Plentyn:** John Puleston  
**Plentyn:** Roger Puleston  
**Rhiant:** Richard Puleston  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** barnwr  
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith  
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

mab hynaf RICHARD PULESTON, a aned yn Allington, sir Ddinbych, yn 1548, yn bedwerydd mab i'r Syr Roger Puleston o Emral a fu farw yn 1587, ac yn frawd i Syr Roger (1566 - 1618) (*gweler yr ysgrif ar y teulu*), ac a fu'n rheithor Astbury yn sir Gaerlleon o 1577 hyd 1596 - bu hefyd yn rheithor segurswydd Llaneugrad ym Môn (1592-6), ac yn rheithor Kingsworthy (Hants) o 1596 a'r Hôb (Estyn) o 1597 hyd ei farw tua 1616.

Fel ei dad, aeth John Puleston i Rydychen (Coleg Oriell), 1601. Aeth i'r Middle Temple (o Clifford's Inn), 1606; galwyd ef at y Bar ar 8 Gorffennaf 1614 - daeth yn 'Reader' ac yn 'Bencher' yn y Middle Temple yn 1634 ac yn drysorydd yn 1646. Adroddir ei yrfa gyfreithiol yn y *D.N.B.*: yn 1643 gofynnodd Ty'r Cyffredin i'r brenin ei benodi'n un o farwniaid y Trysorlys, ond gwrthododd y brenin; yn 1648 rhoes y Ty'r radd o 'serjeant' iddo; a phan ymddiswyddodd yr holl fainc ar ddiwyddiad Siarl (1649), penododd y Senedd ef (1 Mehfin) yn farnwr yn y 'Common Pleas,' eithr ni pharhaodd Cromwell ef yn y swydd (1653).

Yn herwydd marw ei ewythr **Syr Roger Puleston** yn ddiblant yn 1618, a'i ewythr iau George, yn 1634, yntau'n ddiblant, yr oedd John Puleston yn awr yn ben y teulu. Yr oedd ei wraig Elizabeth (ferch Syr John Woolrych o Dudmaston yn Sir Amwythig) yn Bresbyteriaid selog, ac yr oedd hi a'i phlant bychain yn byw yn Emral ar doriad y Rhyfel Cartrefol. Bu raid iddynt ymado â'r fan pan roddwyd garsiwn Frenhinol yn Emral, tua Medi 1642, gan **Syr John Hanmer** - ceisiwyd dadlau ar ran **Hanmer** wedyn mai ar gais Mrs. Puleston ac i achub y lle rhag difrod y gwnaeth ef felly. Llochesodd y teulu gyda chymdogion, a serch i wyr y Senedd adfeddiannu Emral dros dro tua Mawrth 1644 ac yn derfynol tua, diwedd y flwyddyn honno, nid ymddengys i'r teulu fyw ynddo wedyn nes ymadawodd Puleston â'r fainc yn 1653. Y pryd hynny penododd **Philip Henry** yn berson plwyf Worthenbury (yr oedd wedi prynu'r hawl i benodi) ac yn athro i'w blant - yr oedd y ddau hynaf, Roger a John, eisoes wedi ymaelodi yn y Middle Temple (1 Mai 1647). Bu **Philip Henry** fyw yn Emral nes cododd Puleston dy iddo yn Worthenbury; noda yn ei ddyddlyfrau y byddai'n arfer gan Puleston wrth adnewyddu prydesoedd ar ei stad, yn hytrach na mynnu i'w denatiaid gadw ei hela neu hebog, roi'r amod iddynt gadw Beibl yn eu tai. Yr oedd yn aelod o'r 'North Wales Composition Committee' (1649), yn un o gonisysynwyr Deddf Taenu'r Efyngyl yng Nghymru (1650), ac yn aelod o lawer pwyllgor sir seneddol yn siroedd Dinbych a'r Flint (1647-57). Bu farw yn Emral, 5 Medi 1659. Dilynyd ef gan ei fab hynaf, Roger (uchod), a hwnnw gan ei aer yntau, **Syr Roger Puleston** (1663 - 1697 - *gweler yr ysgrif ar y teulu*); sylwer na chafwyd aelod seneddol o'r teulu pwysig hwn rhwng 1611 a 1689. Darfu llinach wrywol Emral yn 1732, ac ewyllysiwyd y stad i John Puleston o Pickhill, disgyfnydd o fab iau y Roger Puleston a oedd yn byw yn amser Harri VI. Bu farw ei fab yntau heb adael mab, ac aeth y stad i wr ei ferch, sef Richard Parry Price, Bryn-y-pys; cymerth mab hwnnw'r cyfenw 'Puleston,' a chrewyd ef yn farwnig yn 1813. Darfu'r farwnigaeth pan fu farw Syr Theophilus Puleston yn 1890, yn ddietyfedd (*Burke's Peerage*, arg. 1869 a 1913).

Brawd iau John Puleston oedd RICHARD PULESTON (ganwyd 1591), clerigwr fel ei dad, cymrawd o Goleg Wadham yn Rhydychen, a D.D., a ddilynodd ei dad yn Estyn ac yn Kingsworthy. Mab iddo ef oedd HAMLET PULESTON (1632 - 1662), ysgrifennwr ar bynciau gwleidyddol - y mae ysgrif arno yn y *D.N.B.*

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813â€”20) (gol. Bliss), i, 433, ii, 777 n., iii, 544

Macgeah a H. A. C. Sturgess, *Register of Admissions to the Honourable Society of the Middle Temple* (1949) (mynegai)

Hopwood, *A Calendar of the Middle Temple Records* (1903) (mynegai)

Hart a Wilkinson, *The Middle Temple bench book being a register of benchers of the Middle Temple from the earliest records to the present time, with historical introduction* (Llundain 1912) (mynegai)

Lee, *Diaries and letters of Philip Henry, M.A. of Broad Oak, Flintshire, A.D. 1631-1696* (Llundain 1882) (mynegai)

Hanmer, *A memorial of the parish and family of Hanmer in Flintshire out of the thirteenth into the nineteenth century*(1876), 97-103

*Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc., 1643â€”1660*, ii, 943, iv, 3160

*Calendar of the Committee for Advance of Money, 1642â€”56* (1888), ii, 591, 726

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642â€”1660* (London 1911) (mynegai)

*Burke's â€| Peerage, Baronetage, and Knightage* (1869 a 1913)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16863571

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dodd, A. H., (1953). PULESTON, JOHN (c. 1583 - 1659), barnwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-PULE-JOH-1583>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Wedi'i gynnal gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government